

CFfG/2021/ 6ed Cyfarfod

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 12 Hydref trwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford	Dirprwy Gadeirydd
Aaron Sollis	Asesydd (Arolwg Ordnans)
Huw Vaughan Thomas Sam Hartley	Comisiynydd Comisiynydd
Shereen Williams Tom Jenkins Rhydian Fitter Cher Cooke Huw Blacker Math Williams	Ysgrifennydd y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 16:32

Amser Gorffen: 17:55

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

- 1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer Neil Park, Asesydd (Arolwg Ordnans).

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

- 3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 29 Mehefin 2021.

4. MATERION YN CODI

- 4.1. **Mater 1** – Gwrandawiadau cyhoeddus – **Dywedodd** yr Ysgrifennydd fod y Comisiwn yn cyfarfod ar hyn o bryd ag amrywiaeth o ddarparwyr Cyfryngau / Digwyddiadau i drafod gofynion y gwrandawiadau. **Cytunwyd** hefyd y

byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o Gymraeg i Saesneg yn unig fel rhan o wrandawriad, gan ddilyn yr arfer yn y Senedd.

- 4.2. **Mater 2** – Penodi Comisiynwyr Cynorthwyol – Rhoddwyd diweddariad i'r Comisiwn ar y penodiadau, a gofynnwyd am ddyddiad dechrau i'r penodiadau ar 1 Tachwedd 2021.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.
- 5.2. **Nodwyd** bod pedwar newid i'r gofrestr risg, fel a ganlyn:
- 5.3. **CFfG4**: mae mesurau lliniaru wedi'u newid i adlewyrchu cwblhau'r broses recriwtio ac yr arhosir am benodiad Gweinidogol.
- 5.4. **CFfG5**: wedi'i ddileu gan fod y porth ymgynghori bellach yn fyw.
- 5.5. **CFfG6**: oherwydd y nifer uchel o sylwadau a dderbyniwyd, mae'r Comisiwn yn defnyddio cwmni cyfieithu ychwanegol i sicrhau bod sylwadau'n cael eu cyfieithu'n amserol.
- 5.6. **CFfG13**: mae mesurau lliniaru wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r strategaeth gyfathrebu sy'n cael ei rhoi ar waith.

6. Lleoliadau Gwrandawriadau Cyhoeddus

- 6.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad ar Lleoliadau Gwrandawriadau Cyhoeddus gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. Yn dilyn trafodaeth ar lleoliadau ar gyfer gwrandawriadau cyhoeddus, **cytunwyd** y bydd gwrandawriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn yr ardaloedd canlynol :-
- Aberystwyth
 - Bangor
 - Wreccsam
 - Abertawe
 - Caerdydd
- 6.3 Mae'r lleoliadau hyn yn adlewyrchu'r ardaloedd 'poeth' o ran y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf. **Nodwyd** y bydd y lleoliadau'n cael eu cadarnhau maes o law.

7. Canllaw i'r Gwrandawriadau Cyhoeddus

- 7.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr Adroddiad ar y Canllaw i'r Gwrandawiadau Cyhoeddus gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 7.2. **Cytunwyd** y bydd gofyn i'r sawl sydd eisiau cymryd rhan ar-lein nodi'r rhesymau pam. Cânt gymryd rhan ar-lein yn ôl disgrisiwn y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 7.3. **Cytunwyd** na fydd y Comisiwn yn caniatáu unrhyw ffrydio arall o'r gwrandawriad, na chymryd ffotograffau.
- 7.4. O ystyried y pandemig parhaus, **cytunwyd** bod angen i'r Comisiwn fod yn barod i allu newid i wrandawiadau ar-lein pe bai'r rheoliadau ar lechyd y Cyhoedd yn newid.
- 7.5. **Cytunwyd** cymeradwyo'r Canllaw yn dilyn y diwygiadau a drafodwyd, ynghyd â mân newidiadau eraill.

8. TRAFODAETH AR RÔL Y COMISIYNWYR CYNORTHWYOL

- 8.1. Cafwyd trafodaeth ar rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol yn yr arolwg. Dywedodd yr Ysgrifennydd wrth yr aelodau y bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn derbyn yr holl sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail. Yn dilyn y gwrandawiadau cyhoeddus, bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn paratoi adroddiad i'r Comisiynwyr er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r Cynigion Diwygiedig.
- 8.2. **Cytunwyd** y bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn adolygu'r holl sylwadau er mwyn sicrhau bod y Comisiynwyr yn parhau i gynnal eu hannibyniaeth yn y cyfnod cyn paratoi'r Cynigion Diwygiedig.
- 8.3. **Cytunwyd** y bydd y Comisiynwyr yn cynnal mynediad i'r porth, ond ni fyddant yn cymryd unrhyw gamau pellach hyd nes bod y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cyflwyno eu hadroddiad.

9. BRASLUN O ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG 2023

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Braslun o Adroddiad Cynigion Diwygiedig 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 9.2. O ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â gostwng nifer yr ASau, a'r camddealltwriaeth mai'r Comisiwn oedd yn gyfrifol am y gostyngiad, **cytunwyd** y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad i egluro rôl y Comisiwn yn natblygiad yr etholaethau.
- 9.3. **Cytunwyd** cymeradwyo'r Braslun o'r Adroddiad yn dilyn y diwygiadau a drafodwyd, ynghyd â mân newidiadau eraill.

10. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – DIWEDDARIAD AR YR ARGYMHELLION

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Diweddariad ar yr Argymhellion gan yr Ysgrifennydd.
- 10.2. **Nodwyd** bod y rhan fwyaf o'r eitemau bellach wedi'u cwblhau, ac eithrio'r rhai yn ymwneud â'r Is-adran Noddi a Llywodraeth Cymru.
- 10.3. **Cytunwyd** hefyd y bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn paratoi adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar y sylw a gafwyd yn y cyfryngau yn ddiweddar a chywirdeb yr adroddiadau yn y cyfryngau.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CFfG 2020/21

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol gan yr Ysgrifennydd.
- 11.2. **Cytunwyd** cynnwys y diweddariad i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin yn rhaglen waith 2021/22.
- 11.3. **Cytunwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol CFfG 2020/21 yn dilyn mân ddiwygiadau i'w gwneud gan yr Ysgrifennydd.

12. UNRHYW FUSNES ARALL

- 12.1. **Dywedodd** yr Ysgrifennydd wrth y Comisiwn y bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael eu gwahodd i swyddfa'r Comisiwn i gael sesiwn gynefino, ac y bydd y gwahoddiad hwn yn cael ei estyn i'r Comisiynwyr er mwyn cyfarfod â'r Comisiynwyr Cynorthwyol sydd newydd eu penodi.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ddydd Llun 22 Tachwedd 2021 am 4:30pm.